GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Cwm Taf Health Board

Your ref/eich cyf:
Our ref/ein cyf: C_17/LWcn
Date/Dyddiad: 15 Rhagfyr 2011
Tel/ffôn: 01443 744835
Fax/ffacs:
Email/ebost: Claire.northwell2@wales.nhs.uk
Dept/adran: Gwasanaethau Corfforaethol

**Cyfraniad i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymholiad i Ofal Preswyl ar gyfer Pobl Hŷn**

**Enw:** Bwrdd Iechyd Cwm Taf

**Proffil Rôl:** Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Cwm Taf ar 1 Hydref 2009 ac mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i dros 325,000 o bobl yn ardaloedd Awdurdodau Lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn bennaf.

Ein gweledigaeth yw '*Creu Cymunedau Cyfan Gwbl Iachach'* drwy anelu at atal iechyd gwael, amddiffyn iechyd da a hybu iechyd gwell drwy weithio â phartneriaid er mwyn darparu gwasanaethau mor lleol ag y bo modd a lleihau'r angen am ofal preswyl mewn ysbyty i gleifion lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. Darperir gwasanaethau acíwt, canolraddol, cymunedol ac iechyd meddwl ar draws rwydwaith o Glinigau Cymunedol, Canolfannau Iechyd ac Ysbytai Cymunedol gyda chymorth dau Ysbyty Cyffredinol Dosbarth.

Bydd pobl hŷn fel rheol yn mynd i mewn i sefydliad gofal preswyl yn dilyn argyfwng naill ai gartref neu'n dilyn mynediad i'r ysbyty. Byddai hyn yn bennaf gydag asesiad angen amlddisgyblaethol, amlasiantaeth.

Gall y drefn bresennol fod yn un anghysylltiol, ac er i waith aruthrol ddigwydd rai blynyddoedd yn ôl ar asesiad unedig, nid yw hyn wedi symud ymlaen mewn ffordd sylweddol ar lefel weithredol yn lleol. Fe'n cynghorwyd bod cynlluniau i ailymweld â hyn ar lefel polisi Llywodraeth Cymru, ac fel sefydliad partner byddem yn croesawu hynny, a'r cyfle i gymryd rhan yn y broses.

Byddai'n hanfodol i'r gwaith strategol hwn gynnwys un broses asesiad i bob canlyniad posibl i'r unigolyn (e.e. gofal cymdeithasol, gartref, pecyn iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd a gofal iechyd parhaus). Roedd y gwaith cynharach wedi nodi rhwystrau, yr un mwyaf sylweddol ohonynt oedd yr angen am systemau cysylltiol TG rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Byddai'r gallu i roi gwybodaeth bersonol unwaith yn unig ac iddi gael ei rhannu mewn ffordd briodol rhwng cyrff yn rhywbeth arwyddocaol i'r unigolyn a asesir ac i'r rhai hynny sy'n gweithio â'r person.

Mae cynnydd sylweddol o ran datblygiad dewisiadau eraill i ofal preswyl wedi digwydd ar draws y gymuned, mae'r rhain yn aml ar sail amlasiantaeth e.e. gwasanaethau ail-alluogi a phrosiectau meddyginiaeth ond maent yn gysylltiedig yn aml â rhai ardaloedd

daearyddol. Cyfyngir ar y gallu i dreiglo'r cynlluniau hyn allan ymhellach oherwydd adnoddau arian a staffio.

Mae'r sector gofal preswyl yn rheoli ystod o ddarpariaeth ar gyfer unigolion sydd yn aml ag anghenion cymhleth ganddynt, mae'n ymddangos bod rhwydweithiau cymorth da ar gyfer mynd trwy raglenni datblygu gweithlu gofal cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol. O fewn maes y Byrddau Iechyd ymddengys fod darpariaeth gofal preswyl ddigonol i gwrdd â'r angen, fodd bynnag cymedrolir ar hyn yn aml gan argaeledd cartrefi mwy dymunol a'r effaith ôl-ddilynol ar bobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty wrth i unigolion aros am y cartref o'u dewis.

Efallai y bydd argaeledd modelau o ddarpariaeth gofal newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, wedi'u seilio yn y gymuned ac yn dilyn cyfeiriad polisi 'Gosod y Cyfeiriad', yn cael effaith o bosibl ar y sector gofal preswyl, a bydd angen i Fyrddau Iechyd weithio â'u partneriaid, yr Awdurdodau Lleol, a'r sector er mwyn ystyried y cyfleoedd mae hyn yn ei gyflwyno iddynt.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os bydd unrhyw ymholiadau gennych.

Yn gywir

**Lynda Williams**
**Pennaeth Cynorthwyol Nyrsio (Rheoliadau a Deddfwriaeth)**


Adran Gwasanaethau Corfforaethol, Tŷ Ynysmeurig, Parc Navigation, Abercynon CF45 4SN